

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION PANEL CYLLID a STAFF 26 GORFFENNAF 2007

### **Presennol**

R M Jones, A Bohana, H W Roberts, H Gwyn, T Thomas, A Kirk, M E Williams, M P Jones, I Thomas, R Anderson

### **1. Ethol Swyddogion**

Cyng. R M Jones yn cael ei ethol fel Cadeirydd a  
Cyng. A Bohana yn cael ei ethol fel Is-Gadeirydd

### **2. Ymddiheuriadau**

A Y Williams – Yn yr ysbyty, yn dilyn trawiad i'r galon  
Pawb yn dymuno gwellhad buan iddo

### **3. Datgan Buddiant Personol**

Neb

### **4. Eitemau brys**

3 cais ariannol Galeri, Shelter Cymru, Gefeillio

### **5. Ceisiadau am gymorth ariannol**

Clerc yn nodi mai dim ond £665 sydd ar ôl o dan y pot Eraill am eleni

#### **i. Y Grael**

Nifer o cwestiynau yn cael ei codi

#### **Penderfynwyd**

Anfon llythyr i John Thirsk yn nodi'r cwestiynau cyn ail ystyried y cais, gan gofio nad yw'r Cyngor a'r hawl i roi arian i unrhyw gwmni preifat

#### **ii. Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr**

#### **Penderfynwyd**

Cyfrannu £100 tuag at eu costau

#### **iii. Gwyl Werin**

#### **Penderfynwyd**

Cyfrannu £300 fel sydd wedi clustnodi yn yr amcangyfrifon

iv. Galeri v. Shelter Cymru a vi. Gefeillio gadael tan Mis Medi gan nad oes brys mawr

## **6. Llythyr Sefydliad y Merched**

### **Penderfynwyd**

Anfon llythyr cwrtais i nodi y rhesymau dros godi'r costau, gan nodi nad yw hyn wedi digwydd ers nifer o flynyddoedd a bod rhan fwyaf o ddefnyddwyr yr adeilad yn defnyddio llestri eu hunain ag ati.

## **7. Rheolau Sefydlog**

Clerc yn gofyn am unrhyw syniadau o fewn y 10 diwrnod nesaf er mwyn iddi baratoi drafft copi erbyn mis Medi

Nodwyd yr isod

Bod angen gwahaniaethu rhwng Cyngor a Pwyllgor Cyffredinol  
Bod agen hawl i weithredu ar y Pwyllgor Cyffredinol- a cofnodion yn cael eu gweithredu arnynt yn syth  
Cofnodion felly ym mhob cyfarfod  
Sefydlu Pwyllgor Cynllunio  
Lle ar agenda i adrodd yn ôl ar ôl unrhyw gyfarfod allanol  
Rheolau dadl yn gywir- dylai pob Cyngorwr ond siarad unwaith mewn unai cyngor neu Pwyllgor

Clerc i geisio cynnwys yr uchod a chysylltu a'r Cyngorwyr sydd ddim yn rhan o'r Panel Cyllid er mwyn cael eu syniadau nhw.

Cyng. H W Roberts yn nodi pethau i'w drafod ym mis Medi:-  
Proses ffurfiol i adolygu staff  
Edrych ar y ffordd yr ydym yn gwobrwyo ceisiadau ariannol flynyddol  
Dadansoddiad o'r cyrff rydym yn rhoddi arian iddynt  
Adolygu'r polisi a dull o roddi arian

Gorffennodd y cyfarfod am 6.40

Arwyddwyd..... Dyddiad.....